Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae'n rhaid i'r Brifysgol asesu effaith ei holl bolisïau ar:

- Y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
- Yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Yn y cyd-destun hwn, mae 'polisi' yn cael ei ddehongli'n eang ac mae'n cynnwys strategaethau, ailstrwythuro, systemau newydd ac ati.

Mae'n ofynnol gwneud 'ymdrech gydwybodol' i ddeall effaith polisi ar y Gymraeg. Ystyriwch yr effeithiau cadarnhaol, niwtral a negyddol gan gyfeirio at dystiolaeth i gefnogi'r asesiad. Mae'r dystiolaeth y gallwch gyfeirio ati yn cynnwys, er enghraifft, data sgiliau iaith, data astudio drwy'r Gymraeg, cadw at y Cod Ymarfer ar Benodi Staff, trafodaethau mewn pwyllgorau, ymgynghori â myfyrwyr a staff. Gall Canolfan Bedwyr ddarparu arweiniad pellach i chi. Cysylltwch â Dr Lowri Hughes l.a.hughes@bangor.ac.uk.

Defnyddiwch y ffurflen hon i wneud eich asesiad a chofnodi effaith eich penderfyniad polisi ar y Gymraeg. Dylai hon fod yn ddogfen fyw sy'n cael ei diweddaru wrth i'r penderfyniad polisi ddatblygu. Mae cadw cofnodion yn bwysig er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau.

| | |
|---|---|
| **Enw'r Polisi:** | Cod Ymarfer Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol |
| **Coleg / Ysgol / Adran:** | Tîm Llwyddiant Myfyrwyr: Gwasanaethau Myfyrwyr ac Academaidd, Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd |
| **Aelod(au) staff sy'n cwblhau'r asesiad effaith ar y Gymraeg:** | Alix Charnley |

| **RHEOLI'R DDOGFEN** | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif y Fersiwn** | **Dyddiad Cwblhau** | **Pwy fu yn ei thrafod** | **Crynodeb o'r newidiadau** |
| 1.1 | 18 Rhagfyr 2025 | Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd. | Wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r strwythur a'r gwasanaethau newydd sydd ar gael. |

| CAPASITI STAFFIO DWYIEITHOG | Effeithiau Cadarnhaol | Effeithiau Niwtral | Effeithiau Negyddol | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|
| **Effeithiau Uniongyrchol** | Mae’r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd yn darparu gwasanaeth dwyieithog i fyfyrwyr, sy'n gallu cael cefnogaeth ac arweiniad yn y Gymraeg. | Ar hyn o bryd, cynhelir y rhan fwyaf o weithdai yn Saesneg; ond mae cymorth dwyieithog ar gael ar gais. | Adnoddau cyfyngedig yn y Gymraeg ar gyfer rhai llwyfannau digidol a gwybodaeth am gyflogwyr. | |
| **Effeithiau Anuniongyrchol** | Yn annog recriwtio staff dwyieithog yn y dyfodol. | | Llai o ddiddordeb posibl gan fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg os nad oes rhywfaint o wybodaeth ran-ddeiliaid allanol ar gael yn y Gymraeg. | |
| **Camau i gynyddu effeithiau cadarnhaol** | Blaenoriaethu recriwtio a hyfforddiant dwyieithog. Sicrhau bod adnoddau allweddol ar gael yn y Gymraeg a thynnu sylw at y ddarpariaeth iaith Gymraeg wrth gyfathrebu â myfyrwyr, fel ym mwletin y myfyrwyr. | | | |
| **Camau i leihau effeithiau negyddol** | Sicrhau bod mentrau newydd yn cael eu cynllunio gyda | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | hygyrchedd o ran y Gymraeg mewn golwg. | | | |
| **Crynodeb a sylwadau pellach** | Gyda’r staff presennol mae modd cael cefnogaeth a darpariaeth yn y Gymraeg, ond gall camau rhagweithiol ehangu capasiti dwyieithog a sicrhau cydraddoldeb i fyfyrwyr, staff a graddedigion sy'n siarad Cymraeg. | | | |

| **DEFNYDDIO'R GYMRAEG: (cyfleoedd i staff, myfyrwyr, y cyhoedd)** | **Effeithiau Cadarnhaol** | **Effeithiau Niwtral** | **Effeithiau Negyddol** | **Amherthnasol** |
|---|---|---|---|---|
| **Effeithiau Uniongyrchol** | Gall myfyrwyr, staff a'r cyhoedd ofyn am yr holl adnoddau a chanllawiau yn y Gymraeg; cynigir rhai gweithdai dwyieithog ac maent ar gael i ddiwallu'r galw. Mae CyswlltGyrfa yn ddwyieithog lle bo modd. | Cyflwynir y rhan fwyaf o ddigwyddiadau a llwyfannau yn Saesneg; hwyrach y ceir defnydd achlysurol o'r Gymraeg. | Gallai diffyg gweithdai a llwyfannau Cymraeg roi myfyrwyr cyfrwng Cymraeg o dan anfantais. | |
| **Effeithiau Anuniongyrchol** | Yn annog diwylliant o ddwyieithrwydd yn y gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd. | Efallai na fydd gan rai partneriaethau gyda chyflogwyr ddewisiadau Cymraeg | Gall myfyrwyr, graddedigion, staff a'r cyhoedd deimlo'n llai abl i ymgysylltu'n llawn â | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | darpariaeth a chyfleoedd cynllunio gyrfa os yw eu hargaeledd yn gyfyngedig trwy gyfrwng y Gymraeg. | |
| **Camau i gynyddu effeithiau cadarnhaol** | Hysbysebu cyfleoedd Cymraeg yn CyswlltGyrfa ac ym mhob deunydd cyfathrebu arall. | | | |
| **Camau i leihau effeithiau negyddol** | Annog cyflogwyr a rhanddeiliaid allanol i ddarparu gwybodaeth yn ddwyieithog lle bo modd. | | | |
| **Crynodeb a sylwadau pellach** | | | | |

| DARPARIAETH ACADEMAIDD TRWY'R GYMRAEG | Effeithiau Cadarnhaol | Effeithiau Niwtral | Effeithiau Negyddol | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|
| **Effeithiau Uniongyrchol** | Cefnogi myfyrwyr trwy ddatblygu elfen gyrfaoedd/cyflogadwyedd ar eu gwefannau a thrwy | | Gallai diffyg gweithdai a llwyfannau Cymraeg roi myfyrwyr cyfrwng Cymraeg o dan anfantais. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ddolenni at adnoddau canolog dwyieithog priodol. | | | |
| **Effeithiau Anuniongyrchol** | Annog diwylliant o ddwyieithrwydd o fewn ysgolion academaidd sy'n ymwneud â chynllunio gyrfa. | | Gall myfyrwyr deimlo'n llai abl i ymgysylltu'n llawn â darpariaeth a chyfleoedd cynllunio gyrfa os yw eu hargaeledd yn gyfyngedig trwy gyfrwng y Gymraeg. | |
| **Camau i gynyddu effeithiau cadarnhaol** | Hysbysebu cyfleoedd Cymraeg yn CyswlltGyrfa ac ym mhob deunydd cyfathrebu arall ar wefannau a thrwy ddolenni. | | | |
| **Camau i leihau effeithiau negyddol** | Annog cyflogwyr a rhanddeiliaid allanol i ddarparu gwybodaeth yn ddwyieithog lle bo modd. | | | |
| **Crynodeb a sylwadau pellach** | | | | |

| **GWASANAETHAU CYMRAEG** | **Effeithiau Cadarnhaol** | **Effeithiau Niwtral** | **Effeithiau Negyddol** | **Amherthnasol** |
|---|---|---|---|---|
| **Effeithiau Uniongyrchol** | Gall pob defnyddiwr gwasanaeth gael mynediad at adnoddau yn ddwyieithog. | | Gallai gwasanaethau cyfyngedig yn y Gymraeg leihau ymgysylltiad myfyrwyr, graddedigion a chyflogwyr Cymraeg. | |
| **Effeithiau Anuniongyrchol** | Yn hyrwyddo defnydd ehangach o'r Gymraeg mewn gwasanaethau myfyrwyr a rhyngweithio â chyflogwyr. | | Efallai na fydd rhai sefydliadau partner yn darparu gwybodaeth yn y Gymraeg. | |
| **Camau i gynyddu effeithiau cadarnhaol** | Rhoi cyhoeddusrwydd eang i wasanaethau a darpariaeth Gymraeg. | | | |
| **Camau i leihau effeithiau negyddol** | Annog cyflogwyr i ddarparu gwybodaeth a darpariaeth yn y Gymraeg. | | | |
| **Crynodeb a sylwadau pellach** | | | | |